# Tyfu ar gyfer twf

**E-fwletin Garddwriaeth gan Cyswllt Ffermio - rhifyn Gaeaf 2025.**

Croeso i'n e-fwletin pwrpasol ar gyfer Tyfwyr a Busnesau Garddwriaeth.

## Beth sy'n digwydd ym maes garddwriaeth?

**Cynhadledd Gwir Fwyd a Ffermio 2025**

Cynhaliwyd Cynhadledd Gwir Fwyd a Ffermio Cymru ar 18-20 Tachwedd yng Ngholeg Penybont, Campws Pencoed. Daeth tyfwyr a ffermwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt ynghyd i archwilio bwyd a ffermio cynaliadwy. Nod y gynhadledd oedd cymryd camau cadarnhaol ar gyfer dyfodol bwyd yng Nghymru, gan fapio system fwyd gynaliadwy ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, a sut y gellid ei gyflawni. Agorwyd y gynhadledd gan **Huw Irranca-Davies, Y Dirprwy Brif Weinidog** ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, gydag anerchiad yn amlygu pwysigrwydd Strategaeth Fwyd Gymunedol Cymru. Agorwyd ail ddiwrnod y gynhadledd gan **Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol,** gan ganolbwyntio ar rôl awdurdodau lleol yng Nghymru o ran siapio systemau bwyd lleol.




Roedd gan Dîm Cyswllt Ffermio stondin yn ystod dau ddiwrnod y gynhadledd, gan ddarparu llais y diwydiant i dyfwyr a rhanddeiliaid ar draws Llywodraeth Cymru a'r sector garddwriaeth ehangach.

Bu'r Rheolwr Garddwriaeth, Sarah Gould, yn cymryd rhan mewn trafodaeth banel ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd, a bu'r Swyddog Datblygu, Sarah Dummett, yn arwain sesiwn yn ystod y gynhadledd ar fuddion compostio o safbwynt iechyd y pridd. Arweiniodd Hannah Norman, Swyddog Sector Garddwriaeth, sesiwn yn canolbwyntio ar Rwydwaith Ein Ffermydd Cyswllt Ffermio a'r rhaglen Agrisgôp, sy'n helpu i adeiladu cymunedau o fewn y sector bwyd a ffermio. Bu Cyswllt Ffermio hefyd yn cynnal tri ymweliad fferm ar drydydd diwrnod y gynhadledd, gyda grwpiau o dyfwyr yn ymweld â ffermydd lleol yn Fferm Slade, Coed Organics ac Ystâd Penllyn. Roedd yr ymweliadau hyn yn dangos gwahanol fentrau tyfu ar wahanol raddfeydd, gan roi cyfle i fynychwyr y gynhadledd weld sut mae syniadau'n cael eu rhoi ar waith ar draws Bro Morgannwg.



## Uchafbwynt hyfforddiant

**Cynyddu Cynhyrchiant Llysiau – Adroddiad ar y Cwrs Hyfforddiant 4 diwrnod**

Mae grŵp o dyfwyr wedi cwblhau cwrs hyfforddiant dwys dros 4 diwrnod yn ddiweddar drwy raglen Garddwriaeth Cyswllt Ffermio i'w cynorthwyo i ddatblygu eu mentrau cynhyrchu llysiau. Datblygwyd y cwrs arloesol hwn ar gyfer ehangu mentrau o ganlyniad i gydnabod yr angen i hyfforddi tyfwyr ar raddfa fach i ddatblygu.

Cynhaliwyd yr hyfforddiant gan Adam Payne o gwmni Awen Organics, a fu'n rhannu ei arbenigedd, ynghyd â'r tiwtoriaid gwadd Rita Oldenbourg ac Adam Beer o Ardd Farchnad Pitney Farm ac Ashley Wheeler o Ardd Farchnad Trill Farm.

Cafodd y grŵp ei dywys trwy egwyddorion ehangu cynhyrchiant a chanfod marchnadoedd newydd, gan gynnwys offer ar gyfer cynhyrchu llysiau ar raddfa cae, dulliau cynhyrchu cnydau gerddi marchnad uchel eu gwerth a chynnyrch mewn twneli polythen, rheoli plâu, clefydau a chwyn, a llif arian, cynllunio cnydau a llunio cyllidebau cnydau.

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

Dyma'r ail dro i'r cwrs gael ei gynnal, wedi iddo gael ei gynnal am y tro cyntaf ym mis Ebrill eleni. Roedd cymaint o alw am y cwrs nes ein bod wedi sicrhau cyllid ar gyfer ail garfan o ddysgwyr, ac mae'r tîm yn gobeithio y bydd y galw'n parhau yn y flwyddyn newydd. Cadwch lygad am ddiweddariadau!
*Os hoffech gael cyngor a chymorth i ehangu eich busnesau, cysylltwch â Thîm Garddwriaeth Cyswllt Ffermio i gael* ***Sesiwn Cymorth Busnes Garddwriaeth un i un wedi'i ariannu'n llawn*** *drwy e-bostio* horticulture@lantra.co.uk.

## Diweddaru eich gwybodaeth

**Cynllunio ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyda Cyswllt Ffermio**
Mae Garddwriaeth Cyswllt Ffermio hefyd yn cynnig ystod o **fodiwlau e-ddysgu Garddwriaeth** sydd wedi'u creu'n benodol i helpu tyfwyr gyda'u Datblygiad Proffesiynol Parhaus:

- *Cyflwyniad i egwyddorion Rheoli Plâu yn Integredig mewn garddwriaeth*
- *Diogelwch bwyd ar gyfer tyfwyr cynnyrch ffres*
- *Iechyd a diogelwch mewn garddwriaeth*
- *Garddwriaeth: Diwydrwydd dyladwy ar gyfer tyfwyr ar raddfa fach*
- *Garddwriaeth: Canllaw cyflym i adnabod rhai o'r plâu, clefydau a chwyn mwyaf cyffredin mewn cnydau garddwriaethol*
- *Garddwriaeth: Compostio ar y safle ar gyfer eich menter arddwriaethol*
- *Egwyddorion plâu a chlefydau planhigion*

**Os byddwch yn cwblhau'r modiwlau hyn nawr, byddant yn cyfrif tuag at flwyddyn 2026 o'r cynllun ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus**. Bydd pob cwrs a gwblheir yn cael ei gofnodi yng nghyfrif Storfa Sgiliau'r unigolyn ac yn cael ei rannu'n awtomatig gyda Thaliadau Gwledig Cymru i ddangos cydymffurfiaeth â Gweithred Gyffredinol 4.
*Gallwch ddod o hyd i'n modiwlau e-ddysgu garddwriaeth ar system BOSS, lle gallwch hefyd ddod o hyd i'r cyrsiau a gwblhawyd gennych a'ch cofnodion dysgu yn eich cyfrif Storfa Sgiliau - yr adnodd storio data ar-lein diogel ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus a ddarperir am ddim i fusnesau sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio. Gofynnwch i'r tîm am ragor o wybodaeth am yr adnodd hwn a sut i gwblhau Cynllun Datblygu Personol ar eich cyfer chi a'ch menter!*

Mae Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn dechrau ym mis Ionawr 2026, ac mae Cyswllt Ffermio yma i ddarparu cymorth i ffermwyr a thyfwyr.
Mae 12 Gweithred Gyffredinol yn rhan o'r cynllun, ac mae un o'r rhain yn cynnwys gofyniad i gwblhau 6 awr o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus. Mae cyfres o fodiwlau e-ddysgu ar gael gan Cyswllt Ffermio a fydd yn cyfrif tuag at gwblhau Gweithred Gyffredinol 4 (UA4) i'r rhai sy'n cofrestru eleni.
*Siaradwch gyda Cyswllt Ffermio i gael cymorth i gwblhau cyrsiau hyfforddiant eleni er mwyn cyfrif tuag at Weithred Gyffredinol 4 yn 2026.*

## Grantiau a Chynlluniau

Peidiwch â cholli'r dyddiad cau ar gyfer grantiau a chynlluniau garddwriaeth Llywodraeth Cymru:

- Mae'r cyfnod ymgeisio ar gyfer **Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth** ar agor nawr. Bydd y cyfnod ymgeisio yn cau ar ***16 Ionawr 2026.***

Gweler ein canllawiau ymgeisio ar gyfer grantiau garddwriaeth yma fel man cychwyn i ddod o hyd i'r holl ddolenni er mwyn ymgeisio. *Cofiwch, gallwch hefyd drefnu* ***Sesiwn Cymorth Busnes un i un wedi'i ariannu'n llawn*** *i'ch helpu – e-bostiwch* Horticulture@lantra.co.uk. *Mae templed cynllun busnes am ddim ar gael* yma.

## Beth sydd ymlaen?

Mae Tîm Cyswllt Ffermio yn cynllunio digwyddiadau ar gyfer y flwyddyn newydd! Cymerwch olwg ar y dudalen Beth sydd Ymlaen am y digwyddiadau diweddaraf, sydd ar gael am ddim i fusnesau sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio.
*A hoffech chi weld pwnc penodol yn cael ei drafod yn fwy manwl? Mae tîm Garddwriaeth Cyswllt Ffermio bob amser yn chwilio am bynciau newydd ar gyfer gweminarau a digwyddiadau hyfforddiant i fodloni gofynion tyfwyr, felly os oes gennych unrhyw awgrymiadau, e-bostiwch* horticulture@lantra.co.uk.

## Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a'r argymhellion a roddir yn y nodiadau hyn. Dylid defnyddio cemegau amddiffyn cnydau gan ddilyn argymhellion y label bob tro, a dylid eu darllen cyn chwistrellu. Mae'r risg o ddefnyddio'r plaladdwr yn nwylo'r

defnyddiwr, ac nid yw Cyswllt Ffermio yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Gall y cyfeiriadau at gymeradwyaethau ar y label ac EAMU ar gyfer defnyddio plaladdwyr newid a gellir tynnu cymeradwyaeth yn ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaethau cyn defnyddio plaladdwyr neu fuddolion. Os oes amheuaeth, dylai tyfwr geisio cyngor gan arbenigwr cymwys. Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad – mae cyngor dros e-bost/ffôn ar gael hefyd. Nid ydym yn gwarantu, yn cymeradwyo, nac yn cymryd cyfrifoldeb am gywirdeb na dibynadwyedd unrhyw wybodaeth a gynigir gan wefannau trydydd parti sy'n gysylltiedig â'r ddogfen neu unrhyw wefan neu nodwedd sydd wedi'i chysylltu ag unrhyw faner neu hysbyseb arall.